# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Cyffredinol*

## 18 Dehongli

Yn y Ddeddf hon, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

mae "addasu" ("*modify*"), mewn perthynas â deddfiad, yn cynnwys diwygio neu ddiddymu;

mae "amaethyddiaeth" ("*agriculture*") yn cynnwys—

(a) ffermio gwartheg godro;

(b) cynhyrchu unrhyw gynnyrch defnyddiadwy at ddibenion masnach neu fusnes neu unrhyw fenter arall (p'un a wneir hynny i wneud elw ai peidio);

(c) defnyddio tir fel tir pori, gweirglodd neu ddoldir;

(d) defnyddio tir fel perllan, tir helyg gwiail neu goetir;

(e) defnyddio tir fel gerddi marchnad neu blanhigfa;

ystyr "cyflogaeth" ("*employment*") yw bod yn gyflogedig o dan gontract gwasanaeth neu brentisiaeth a dylid dehongli "a gyflogir" ("*employed*") a "cyflogwr" ("*employer*") yn unol â hynny;

ystyr "cynnyrch defnyddiadwy" ("*consumable produce*") yw cynnyrch a dyfir i'w fwyta ac i'w yfed neu i'w ddefnyddio fel arall ar ôl iddo adael y tir lle cafodd ei dyfu;

ystyr "Deddf 1998" ("*1998 Act*") yw Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 (p. 39);

mae "gorchymyn cyflogau amaethyddol ("*agricultural wages order*") i'w ddehongli yn unol ag adran 3 (ond gweler hefyd adran 12(3));

ystyr "gweithiwr amaethyddol" ("*agricultural worker*") yw person a gyflogir ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru, p'un a yw'r holl waith yr ymgymerir ag ef yn rhinwedd y gyflogaeth honno yn cael ei gwneud yng Nghymru ai peidio;

mae i'r "isafswm cyflog cenedlaethol" ("*the national minimum wage*") yr ystyr a roddir iddo gan adran 10.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 18 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 19**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Adran 18.